

CENEDLAETHOLDEB : GWEITHGAREDDAU

Cymhwyso cenedlaetholdeb (A01, A02)

Isod, amlinellir cyfres o sefyllfaoedd gwleidyddol gwahanol. Darllenwch y disgrifiadau yn ofalus ac yna ystyriwch sut y byddai unigolion sy'n arddel cenedlaetholdeb yn dewis ymateb yn y sefyllfaoedd gwahanol hyn. Cofiwch hefyd ystyried os byddai gwahanol fathau o genedlaetholwyr yn dewis ymateb yn union yr un modd ym mhob sefyllfa. Er enghraifft, a fyddai cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn ymateb yn wahanol i genedlaetholwyr ceidwadol, neu a fyddai cenedlaetholwyr sifig yn ymateb yn wahanol i genedlaetholwyr ethnig? Yn ogystal, a fyddai ymateb aelodau cenedl leiafrifol yn wahanol i ymateb aelodau cenedl fwyafrifol mewn rhai sefyllfaoedd? Nodwch resymau i egluro eich casgliadau yn achos y gwahanol sefyllfaoedd.

Sylwebwyr gwleidyddol yn y wasg yn dadlau bod angen gosod cyfyngiadau ar fewnfudo rhyngwladol er mwyn gwarchod undod y genedl ac atal y diwylliant traddodiadol rhag cael ei danseilio.

Achos lle bo aelodau cenedl is-wladwriaethol yn dymuno cynnal refferendwm i benderfynu os ddylid torri'n rhydd i ffurfio gwladwriaeth annibynnol newydd, ond yn cael eu hatal rhag cynnal y bleidlais gan lywodraeth y wladwriaeth fwyafrifol.

Llywodraeth sy'n trosglwyddo grymoedd cenedlaethol mewn meysydd megis yr economi neu bolisi amgylcheddol i gorff uwchgenedlaethol (tebyg i'r UE), gan ddadlau bod sialensau gwleidyddol cyfoes yn galw am gydweithio agos ar y lefel rhyngwladol.

Gwladwriaeth sy'n cyflwyno diwygiadau cyfansoddiadol er mwyn estyn mesur o hunanlywodraeth i ddwy genedl is-wladwriaethol sydd wedi'u lleoli o fewn ei ffiniau.